

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll  
Cofnodion Cyfarfod 26 Mehefin 2018

**Presennol:** J. Roberts (Cadeirydd), S. Edwards, (Is-gadeirydd), A. Mummery, A. Jones, G. Parry, H. Huws, G. C. Jones, Mervyn Jones, A. Williams, E. Parry, Meirion Jones  
D. Owen (Clerc),

		<b>Gweithred</b>	<b>Dyddiad</b>
<b>1.0</b>	<b>Ymddiheuriadau:</b>		
<b>1.1</b>	D. Jones, R. Williams (Cynghorwr Sir)		
<b>2.0</b>	<b>Datganiadau o Ddiddordeb.</b>		
<b>2.1</b>	Mi ddatganwyd diddordeb gan A. Jones a G. Parry yn eitem 9.0		
<b>3.0</b>	<b>Cyfrifon Mis Mehefin 2018</b>		
	Nodwyd bod angen gwneud cais i Dwr Cymru am leihau biliau gan fod llai o ddŵr glaw yn mynd i'r draeni oherwydd y system casglu dŵr glaw.	D. Owen	
	A. Maer yn cynnig, Meirion Jones yn eilio, derbyniwyd y rhain fel y rhai cywir		
<b>4.0</b>	<b>Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol</b>		
<b>4.1</b>	A. Mummery yn nodi fod cyfarfod agored wedi bod yn yng Ngharreg y Bran ynglŷn â datblygiad gan SP Manweb sydd ddim yn gysylltiedig gyda gwaith o substation Dyfnia i Llangaffo. Nododd nid oedd Cynghorwyr Sirol yn ymwybodol na'r Cyngor Bro. A. M am wneud ymholiadau pellach yn y Cyngor Sir, a Chlerc i ysgrifennu at SP Manweb yn gofyn am fanylion ac eglurhad a gofyn iddynt ddod i gyfarfod a chopi i'r Cyngor Sir, Rhun ap Iorwerth AS a Albert Owen MP.	<b>A. M A D. Owen</b>	
<b>4.2</b>	G. C. Jones wedi mynychu cyfarfod ar dad gomisiynu niwclear ym Mangor a nododd bod mudiadau mawr yn bresennol fel y HSE, NRW ayyb. Nododd mai'n debygol mai NRW fydd yn gyfrifol am y safle ar ôl i'r drwydded niwclear ddod i ben ar y safle presennol.		
<b>4.3</b>	H. Huws yn nodi bod angen i Gyngor Bro Llanfairpwll gofrestru fel 'parti a diddordeb' a fydd yn eu galluogi i roi tystiolaeth ar yr effaith gronnu o'r datblygiad. Nododd bod miloedd o'r cyhoedd wedi rhoi sylwad ar Hinkley	<b>D. Owen</b>	
<b>4.4</b>	A. M yn nodi bod Alan Jones o'r Cyngor Sir wedi trefnu i weithredu ar wrychoedd sydd yn gordyfu		
<b>5.0</b>	<b>Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod Blynyddol 31 Mai 2018</b>		
<b>5.1</b>	A. Mummery yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir		
<b>6.0</b>	<b>Materion yn codi o'r cofnodion</b>		
<b>6.1</b>	Twr Marcwis - Dim diweddariad pellach i adroddiad S. Edwards yn Chwefror		
<b>6.2</b>	Gwelliannau Pentrefol a sefydliad cymunedol - D. Jones am gael diweddariad gan Aled o Grŵp Ffrindiau'r Parc a'r Gors	<b>Dyfed Jones</b>	<b>31/07/18</b>
<b>6.3</b>	Ymgyrch codi arian Neuadd Goffa - A. Mummery yn nodi fod Dylan Evans heb fod yn llwyddiannus hyd yn hyn gyda cheisiadau am grantiau. Mae'n parhau i weithredu		
<b>6.4</b>	Ffens arfaethedig rownd y cae pêl droed - S. Edwards yn dilyn y mater i fyny	<b>S. Edwards</b>	<b>31/07/18</b>
<b>6.5</b>	Seddi gwag - Clerc i osod yr hysbysiad ar yr Hysbysfwrdd ac i yrru i Bapur Menai	<b>D. Owen</b>	
<b>6.6</b>	Paentio'r Neuadd Goffa - A. Jones wedi cael hanes grant gan yr Hwb Cymunedol a allai gyfrannu tuag at gostau paentio'r Neuadd. Cytunwyd i ddal ar y paentio tan fydd y grantiau wedi dod i mewn. A. M yn gofyn i roi Grant yr Hwb ar agenda Medi Pwyllgor Neuadd Goffa gan fod angen arweiniad gan Lindsey sydd yn arwain prosiect yr Hybiau Cymunedol a gofyn i S. Edwards ddod i'r cyfarfod hwnnw.	<b>D. Owen</b>	<b>Medi 2018</b>
<b>6.7</b>	Safle We - H. Huws am yrru manylion ymlaen i A. Jones a S. Edwards, S. E. am drïo cael cyngor gan gyfaill i drïo datrys y mater.	<b>H. Huws a S. Edwards</b>	<b>31/07/18</b>
<b>6.8</b>	Defibrillator - Dyfed Jones wedi paratoi crynodeb yn unol â gofyniad Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo. Cytunwyd yn unfrydol i barhau a'r archeb.	<b>D. Jones</b>	<b>31/07/18</b>
<b>6.9</b>	Clerc i ddilyn i fyny hefo Idefatigable ynglŷn â'r cwt wrth y Môr	<b>D. Owen</b>	<b>31/07/18</b>
<b>6.10</b>	Clerc i yrru llythyr at yr Ysgol Gynradd yn eu llongyfarch ar eu llwyddiant	<b>D. Owen</b>	<b>31/07/18</b>

<b>6.11</b>		<b>D. Owen</b>	<b>26/06/18</b>
<b>7.0</b>	<b>Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 05 Mehefin 2018</b>		
<b>7.1</b>	A. Jones yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir, wedi cywiro eitem 2.2 yn cadarnhau mai G. C. Jones sydd yn Is Gadeirydd.		
<b>8.0</b>	<b>Materion yn codi o'r Cyfarfod</b>		
<b>8.1</b>	Goleuadau Nadolig - G. C. Jones a S. Edwards wedi cyfarfod gyda'r wraig sydd yn gwneud yr archeb, disgwyl iddi yrru un swyddogol i gwblhau'r archeb.		
<b>8.2</b>	Grant Horizon - Nodwyd bod grant o £2,000 wedi derbyn ac mae nawr angen parhau a'r gwaith pwyntio a phaentio'r tu allan i'r Neuadd. Diolchwyd i Mervyn am ei waith. Cytunwyd i gynnal cyfarfod brys o bwyllgor Neuadd Goffa pan fydd mwy o wybodaeth am yr arian i gael.	<b>D. Owen</b>	
<b>8.3</b>	Paentio Cysodfannau Bws - Cytunwyd fod y pris sydd wedi derbyn yn rhesymol a gytunwyd i barhau a'r gwaith.		
<b>8.4</b>	Cloc - Nodwyd fod Andre am barhau i osod bachau ar y wal wrth y cloc i ddal torchau. Hefyd mae angen ail osod y bachau oedd yn dal y goleuadau Nadolig.		
<b>9.0</b>	<b>Peiriant Torri Gwair y Clwb Bowlio</b>		
<b>9.1</b>	A. Jones a G. Parry yn gadael yr ystafell. Llythyr wedi derbyn gan y Clwb Bowlio ynglyn a'r peiriant torri gwair sydd bellach wedi dod i ddiwedd i'w oes. Nodwyd ni all y clwb barhau heb y peiriant ond dim adnoddau ganddynt hwy i brynu un newydd. Nodwyd os fyddai Cyngor Bro yn fodlon helpu, mae dau opsiwn ar gael, unai Cyngor Bro i brynu'r peiriant a'i logi i'r Clwb, neu fenthg yr arian i gyd i'r clwb ond yr arian i'w dalu yn ôl o dan gytundeb.		
<b>9.2</b>	A. W yn cynnig rhoi rhodd o £2,000 a benthg y gweddill a thalu yn ol £100 y mis yn ystod yr haf a £50 y mis yn ystod y gaeaf. E. P yn eilio RMJ yn cynnig gwelliant o fenthg yr arian yn gyfan i'r Clwb i osgoi sefydlu cynsail, G. C. Jones yn eilio. Wedi pleidlais roedd pedair yr un i'r cynnig a'r gwelliant, gyda A. M yn gwrthod pleidleisio. J. R y cadeirydd gyda'r bleidlais derfynol yn penderfynu mynd gyda'r gwelliant. Clerc i ddrafftio cytundeb benthgyiad. Y ddau aelod yn dychwelyd i'r ystafell ac yn cael cadarnhad o'r penderfyniad.	<b>D. Owen</b>	<b>31/07/18</b>
<b>10.0</b>	<b>Ceisiadau Cynllunio</b>		
<b>10.1</b>	31C449 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 27 Pant Lodge, Llanfairpwll - Dim sylw		
<b>10.2</b>	31C287D Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Afallon, Lon Pant, Llanfairpwll - Dim sylw		
<b>10.3</b>	31C450 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Derlwyn, Ffordd Caergybi, Llanfairpwll - Dim sylw		
<b>11.0</b>	<b>Gohebiaeth</b>		
<b>11.1</b>	Cylchlythyr Rhun ap Iorwerth - Derbyn y wybodaeth		
<b>11.2</b>	Llythyr diolch Seindorf Biwmares - Derbyn y wybodaeth		
<b>11.3</b>	Cyfarfod Unllais Nos Iau 7:00yh yn Neuadd y Sir, Llangefni - G. C. J a H.H i fynychu		
<b>11.4</b>	Grid Cenedlaethol - Newyddion y Prosiect - Derbyn y wybodaeth		
<b>11.5</b>	CSYM - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth		
<b>11.6</b>	Llythyr gan y W. I - cytunwyd i ymateb yn gwerthfawrogi eu diddordeb yn y pentref a'u cyfeirio at Ed Henderson yn y Cyngor Sir	<b>D. Owen</b>	
<b>12.0</b>	<b>Materion Brys</b>		
<b>12.1</b>	A. W yn nodi fod y llwybr wrth ŵr ysgol ger y substation wedi gordyfu. E. Parry am roi sylw iddo.		
<b>12.2</b>	A. W yn nodi fod lot o faw ci o gwmpas y pentref. H. Huws yn gofyn be ydy strategaeth y Cyngor Sir am y broblem yn gyffredinol a'u hysbysu am y broblem yn Llanfair	<b>D. Owen</b>	
<b>12.3</b>	S. Edwards yn gofyn i Gynghorwyr gael e-bost gan y clerch yn gofyn am eitemau i fynd ar yr agenda.		
<b>12.4</b>	S. Edwards yn nodi fod ras 5k Llanfair i'w gynnal mewn pythefnos.		

12.5	S. Edwards yn gofyn am ddiweddariad ar ddyfodol y toiledau. Nodwyd eu bod yn mynd ar werth gan fod costau eu cynnal yn sylweddol a does dim llawer o ddiddordeb dros yr Ynys gan Gyngorau eraill i'w cynnal chwaith.		
------	--	--	--

**Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 31 Gorffennaf 2018 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa**

Arwyddwyd..... (Cadeirydd) ..... Dyddiad